

**North Wales Regional Collaborative Committee  
Minutes of Meeting held on July 12<sup>th</sup> 2019**

<p>Yn bresennol: Enid Roberts, Cartrefi Cymunedol Gwynedd (Cadeirydd) Lynne Evans (LE), Tai Gogledd Cymru (Is-gadeirydd)</p> <p>Y Cyngorydd Alun Mummery, Cyngor Sir Ynys Môn Elliw Llyr, Cyngor Sir Ynys Môn Arwel Jones, Cyngor Sir Ynys Môn Abbe Harvey, Cyngor Sir Ddinbych Cyngorydd Charlie McCoubrey, CBS Conwy Martin Cooil, CBS Conwy Cyngorydd Dave Hughes, Cyngor Sir y Fflint Neal Cockerton, Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Shirley Jones, CBS Wrecsam Shelley Greenwood, CBS Wrecsam Susan Griffith, Gwynedd Jono Clarke, Gwasanaeth Prawf Gwenan Ellis, Grŵp Cynefin Wendy Hughes, Digartref Ynys Môn Andy Roberts, Clwyd Alyn Emma Wood, Hafan Cymru Rachel Pierce-Jones, Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol</p>
---	---

		Cam Gweithre du
<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad a Chroeso</b>	
	<p>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.</p> <p>Cafwyd cyflwyniadau, roedd wynebaw newydd o amgylch y bwrdd, croesawyd arweinwyr Tai i'r Pwyllgor ar ôl cytuno i'w gwahodd ym Mhwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Mawrth.</p> <p>Diolchwyd i Shelia Phillips o Wynedd a dymunwyd yn dda iddi yn ei hymddeoliad, a diolchwyd am ei hymrwymiad i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r Is-Grŵp.</p> <p>Ymddiheuriadau Y Cyngorydd Craig ab Iago, Cyngor Gwynedd Arwel Wyn Owen (AO), Cyngor Gwynedd Sam Parry, CBS Conwy Debbie Lambe, CBS Conwy Cyng. Bobby Feeley, Cyngor Sir Ddinbych Lisa Pearson, Cyngor Sir y Fflint Y Cyngorydd Joan Lowe, CBS Wrecsam Phil Forbes, Iechyd (Iechyd Meddwl) Gwynne Jones, Cartrefi Conwy Gareth Evans, Iechyd Glynne Roberts, Iechyd Cyhoeddus Cymru Julie Francis, Wrecsam</p>	
<b>2</b>	<b>Cofnodion Blaenorol a Thabl o Gamau Gweithredu</b>	
	<p>Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir. Camau gweithredu heb eu cyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhaodd Shirley Jones nad oedd Paul Webb wedi ymateb, ac y gellir gwario cyllid Rhentu Doeth Cymru ar hyrwyddo Rhentu Doeth Cymru.</li> </ul> <p>Mae'r holl gamau gweithredu eraill wedi'u cwblhau.</p>	
<b>3</b>	<b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Grant Cymorth Tai</b>	
	Cyflwynodd Enid Roberts y papurau canlynol:	

1. Proses Cynllunio Strategol Grant Cymorth Tai – cynnig drafft.
2. Comisiynu a Chaffael Grant Cymorth Tai – cynnig drafft
3. Dyrannu, adrodd a monitro Grant Cymorth Tai – cynnig drafft
4. Pwrpas Craidd Grant Cymorth Tai – cynnig drafft
5. Strwythur/ Gweithio Rhanbarthol – cynnig drafft

Cyflwynwyd y papurau a nodwyd uchod ac a anfonwyd gyda'r agenda, yn y Digwyddiad Ymgysylltiad Grant Cymorth Tai ar 19 Mehefin yng Nghaerdydd, roedd Enid Roberts, Rachel Pierce-Jones, Martin Cool, Debbie Lambe, Shirley Jones, Arwel Jones, Arwel Wyn Owen, Lisa Pearson ac Abbe Harvey yn bresennol o Ogledd Cymru.

Cafodd y digwyddiad ei strwythuro i fod fel gweithdy i roi adborth ar bob cynnig. Rhoddodd Enid grynodedeb o adborth y gweithdy a oedd wedi'i grynhoi gan yr hwyluswyr ar y diwrnod.

- **Pwrpas Craidd y Papur Grant Cymorth Tai** - roedd pawb yn gytûn gyda chynnwys y papurau.
- **Papur Dyrannu, adrodd a monitro Grant Cymorth Tai** – roedd y mwyafrif yn hapus gyda'r cynnwys, roedd rhai yn teimlo bod angen adrodd mwy yn ôl i Lywodraeth Cymru na'r trefniadau cyfredol.  
Roedd yn siomedig nad oedd amseroedd yn gallu cael eu symud o ran pryd y roedd y grant yn cael ei dderbyn gan fod hyn ar hyn o bryd yn dynn iawn o ran amser i gynllunio. Soniwyd yn fras am y canlyniadau a roedd yn ffocws yn y cyfarfod Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl Cymru Gyfan yr wythnos ddiwethaf.

- **Canlyniadau -**

Ar 2 Gorffennaf roedd gan Rwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl Cymru Gyfan weithdy ar y Fframwaith Canlyniadau arfaethedig.

- A oes gennym y dangosyddion cenedlaethol cywir, amcanion cyllid hyblyg a chanlyniadau cyllid hyblyg?
- Ydym yn dymuno mynnu allbynnau rhaglen a gweithgareddau rhaglen ar lefel leol neu genedlaethol?
- Oes arnom angen gwneud unrhyw newidiadau iddynt (ac os oes, a oes gennym y data i gefnogi'r newidiadau), cael gwared neu ychwanegu unrhyw beth?
- A oes unrhyw beth sydd ddim angen ei gasglu mwyach?

Mae'r fframwaith ddrafft yn defnyddio'r amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fframwaith drafft ar ddiwedd yr Hydref, yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2020

- **Papur Comisiynu a Chaffael** – Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyffyrddiad ysgafn ac os oes rhywbeth wedi gweithio'n dda yna nid oeddynt eisiau ail-dendro.  
Roedd ychydig o broblemau gyda hyn, yn arbennig gyda'r angen i gydymffurfio â rheolau sefydlog contractau Awdurdodau Lleol. A bod diffiniad rhwng y grantiau a chytundebau yn glir yn y canllaw.
- **Papur Cynllunio Strategol** – Y Strategaeth, mae hyn yn cynnwys y 3 rhaglen a bydd yn un strategaeth.  
Nid oedd hyn yn eglur cyn y digwyddiad bod Cefnogi Pobl yn rhan o'r strategaeth hon. Bydd hefyd angen adroddiad cynnydd bob chwe mis. Bydd y strategaeth yn dod â mwy o gydweithio.

Ni chafwyd cadarnhad ar arian Adran 180 (Atal Digartrefedd) yn y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl Cymru Gyfan, a chadarnhaodd Rachel bod y posibilrwydd

Pawb i  
fwydo i'r  
Ymgynghori  
ad  
Llywodraeth  
Cymru

	<p>am Grant Cyllid Anabledd a Grantiau Addasiadau wedi'i grybwyll yn y Rhwydwaith Comisiwn Datblygu Gwledig a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, ac y gallent gael eu cynnwys yn y Grant Cymorth Tai.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd ein bod angen bwydo i hwn pan fydd y canllaw yn cael ei gyhoeddi ar gyfer yr ymgynghoriad.</p>	
<b>4</b>	<p><b>Gweithio Rhanbarthol – Cynnig drafft Llywodraeth Cymru – ymateb Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i'r ymgynghoriad</b></p>	
	<p>Y cynnig yw i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fod yn is-grŵp Grant Cymorth Tai o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB). Bydd yr is-grŵp Grant Cymorth Tai yn hysbysu'r ddau gynrychiolydd tai ar y RPB, sef Sian Lloyd Williams a Clare Budden, sydd yn gyn-aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Cyflwynwyd y cynnig i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r sylwadau oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd gennym ddigon o wybodaeth am rôl y RPB a sut roedd yn gweithio i allu deall sut y gallai'r trefniadau newydd weithio.</li> <li>• Roedd pryderon bod penderfyniadau ynghylch y byddai blaenoriaethau rhy bell o bobl sydd yn deall yr anghenion sy'n newid.</li> <li>• Sut y byddai grant Adran 180 yn cael ei reoli?</li> <li>• Pa ffrydiau cyllid cyfredol sydd yn cael eu cynnwys yn y cyllid Cymorth ac Addasiadau, a phwy sydd â mynediad at y cyllid hwn?</li> <li>• Roedd cydnabyddiaeth bod strwythurau rhanbarthol newydd wedi cael eu creu ar ôl i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gael ei greu, a byddai'n synhwyrol i ymuno â'r rhain os yw'n briodol. Mae rhai Aelodau Etholedig yn mynychu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a RPB.</li> <li>• Pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal gyda'r RPB ynghylch y cynnig hwn?</li> </ul> <p>Gofynnodd Enid Roberts i'r holl aelodau, pan fydd hwn yn cael ei gyhoeddi i'w ymgynghori, i ymateb i geisiadau gwybodaeth Rachel am yr ymgynghoriad fel y gallwn lunio ymateb Gogledd Cymru.</p>	<p>Pawb i fwydo i'r Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru</p>
<b>5</b>	<p><b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Aiddosbarthu</b></p>	
	<p>Rhoddodd Rachel ddiweddariad ar ei chyfarfod ym mis Mehefin gyda Llywodraeth Cymru, roedd diweddariad Paul Webb ar aiddosbarthu yn fyr iawn a nododd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 2 neges yn dod o hyn, <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Angen digwydd gan nad oes modd bodloni'r angen gan nad oes arian</li> <li>○ Gwario ar yr angen</li> </ul> </li> <li>• Wedi rhoi crynodeb i'r gweinidogion sydd yn seiliedig ar hyn, lle mae tegwch yn cael ei ystyried? A bydd gwleidyddiaeth yn chwarae rhan yn hyn.</li> <li>• Heb glywed beth fydd yn y fformiwla, dim newydd ar hynny eto, mae'n rhaid i'r fformiwla adlewyrchu'r angen.</li> </ul> <p>Rhoddodd Enid Roberts ddiweddariad i'r Pwyllgor bod Karl Thomas wedi rhoi cyflwyniad byr yn Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl Cymru gyfan yr wythnos ddiwethaf. Mae dau ddigwyddiad Aiddosbarthu yn cael eu cynnal ar 15 Gorffennaf (Gogledd Cymru) a 16 Gorffennaf (De Cymru) i drafod aiddosbarthu. Ar gyfer swyddogion arweiniol Cynllunio Gofodol, arweinyddion digartrefedd a chyswllt cyllid allweddol o bob Awdurdod Lleol. Dylai hwn fod yn unigolyn o'r adran gyllid sydd yn deall sut mae cyllideb Cynllunio Gofodol yn cael roi at ei gilydd, a sut mae wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, a sut mae'n cael ei wario'n lleol. Nid yw Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol wedi cael eu gwadd i hwn.</p>	

	<p>Gofynnodd y Cadeirydd i ni geisio cael y bobl gywir i'r cyfarfod ar 15/16 Gorffennaf, a thrafodwyd hefyd ein bod angen sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn deall y mater a faint o effaith y bydd hyn yn ei gael ar Ogledd Cymru, mae angen i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol godi'r mater hwn â'r Aelodau'r Cynulliad.</p> <p>Awgrymwyd hefyd a oedd unrhyw waith ar ddata angen nas diwallwyd y gallwn eu defnyddio i fwydo i mewn i hyn? Cyn i Rachel gael y swydd, roedd gwaith wedi'i wneud ar Ailddosbarthu i Ogledd Cymru a oedd yn cynnwys y ffigurau a faint y gallem golli, Rachel i ddod o hyd i'r rhain a rhoi diweddariad.</p> <p>Rachel wedi gofyn i Karl os ellir atodi'r dadansoddiad SUI i'n llythyr i'r Gweinidog.</p>	<p><b>Pawb i roi crynodeb i'r Aelodau'r Cynulliad perthnasol.</b></p> <p><b>RPJ</b></p>
<b>6</b>	<b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar SPNAB</b>	
	<p>Ar gyfer holl aelodau newydd, eglurwyd mai Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yw SPNAB sydd yn argymhell y Gweinidog ar ddarparu'r grant.</p> <p>Nid yw Rachel yn mynychu'r cyfarfod SPNAB, fodd bynnag roedd Sam Parry o Gonwy wedi cael ei wahodd i'r SPNAB, rhannwyd y diweddariad isod gan RDC arall:</p> <p>Mynychodd Julie James AC a thrafodwyd y pwyntiau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryder ynghylch y nifer o fyrddau a threfniadau llywodraethu sy'n croesi drosodd.</li> <li>• Gwahanol strwythurau/ trefniadau rhanbarthol ar gyfer llywodraeth leol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gyda chynigion yn debygol o gael eu cyhoeddi yn yr hydref.</li> <li>• Eisiau SPNAB i roi adborth i'r rheswm pam nad yw pethau yn gweithio ar lawr gwlad h.y. pam nad yw polisi yn cael ei weithredu.</li> <li>• Cynrychiolydd Tai a RPB - sut y gallai'r swydd hon gynrychioli tai ac ystod eang o faterion gan gymorth.</li> <li>• PSB a RPB yn gorgyffwrdd - yn gweithio'n well mewn rhai rhannau yng Nghymru nag eraill.</li> <li>• Eisiau SPNAB drafod a gafael yn y materion hyn ac i gynghori ar sut i gyflawni'r polisiâu cenedlaethol.</li> <li>• Trafodwyd bod RPB eisiau cynrychiolydd digartrefedd/ cymorth ychwanegol i weithio ochr yn ochr â'r cynrychiolydd tai cyfalaf.</li> <li>• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adolygu trefniadau strategol.</li> <li>• Dywedodd PW ei bod yn debygol y bydd arian arall i ddigartrefedd yn dod i mewn i grant Cymorth Tai - mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Wedi cynnwys eich grantiau cyllid anabled a grantiau addasiadau.</li> </ul> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Hydref fel y gall canllaw newydd ei ystyried.</p>	
<b>7</b>	<b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cynllun Gwaith</b>	
	<p>Rhoddodd Rachel ddiweddariad ar bob ardal blaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol Rhanbarthol 2017-20:</p> <p>Rhai Sy'n Gadael Carchar: Cyfarfod nesaf Is-grŵp Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar 18 Medi, ar y cyd â phob PRO, Jono Clarke CRC a Karl Williams, NPS, i edrych ar argymhellion eraill o'r adroddiad ymchwil.</p> <p>Cam-drin domestig: Wedi gweithio gyda'r Bwrdd VAWDASV i gomisiynu ar y cyd y Gwasanaeth IDVA</p>	

	<p>Rhanbarthol, cyflwynwyd manyleb derfynol yng nghyfarfod diwethaf o'r Bwrdd VAWDASV ym mis Mai, i ddechrau yn yr hydref.</p> <p>Anabledd Dysgu:</p> <p>Eglurodd Rachel y cylch gwaith ar gyfer LD dan y Cynllun Strategol Rhanbarthol sydd wedi'i gwblhau, mae Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn awr ar ymgynghoriad ar gyfer LD i ystyried a yw'r arian yn aros gyda Chefnogi Pobl/ Grant Cymorth Tai neu a yw'n cael ei dynnu o'r grant a'i roi'n uniongyrchol i Wasanaethau Cymdeithasol. Rhoddodd Rachel y diweddariad yr oedd wedi ei gael gan Paul Webb yn y cyfarfod Rhwydwaith RDC diwethaf a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Roedd llawer o bwyslais ar wasanaethau LD sydd ddim yn cael eu comisiynu gyda gwasanaethau cymdeithasol – angen rhoi ystyriaeth i'r prosiectau hyn.</li> <li>○ Mae llawer o bobl eisiau i'r arian fynd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol</li> <li>○ Angen diffiniad – ar gyfer pa ochr y mae'n disgyn</li> <li>○ Pell iawn o ddod i gasgliad - ddim ffeithiau a ffigurau i'w cyflwyno eto.</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Wedi diweddarau gwaith LD a gyflwynwyd i Liz Cook yn Llywodraeth Cymru yn 2017</li> </ul> <p>Cododd AJ bryderon ynghylch yr effaith niweidiol posibl ar gyllid yng Ngogledd Cymru gan fod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyflawni gwaith eisoes i leihau gwariant ar LD, ac efallai ni fydd y gwariant hwn yn destun cael ei aiddosbarthu.</p> <p>Pobl Sy'n Cysgu Allan:</p> <p>Eglurodd Rachel fod gennym arweinwyr Digartrefedd ar y bwrdd, a yw hwn yn gyfle i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol osod cynllun gwaith i'r Is-grŵp Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Pobl sy'n Cysgu allan? Dywedodd Elliw bod rhaglen waith ochr yn ochr â hyn, ond bod angen yr awdurdodau lleol i gydweithio. Angen ei drafod yn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a sut mae i gyd yn dod at ei gilydd.</p> <p>Rachel i arwain hyn.</p>	<b>RPJ</b>
<b>8</b>	<b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar brosiect peilot Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych</b>	
	<p>Rhoddodd Abbe Harvey ddiweddariad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Rheolwr wedi'i recriwtio - Susan Stephenson</li> <li>● Wedi recriwtio pedwar swyddog tai</li> <li>● Wedi cael panel derbyn cyntaf, cyflwynwyd 13, 8 wedi derbyn a 3 wedi dechrau'r ymgysylltiad.</li> <li>● Wedi symud un unigolyn o'r ysbyty i lety dros dro tan y gallwn ddod o hyd i lety.</li> <li>● Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllaw ar sut i fesur llwyddiant/ effaith, mae Conwy a Sir Ddinbych yn defnyddio Sêr Llesiant.</li> </ul> <p>Bydd data effaith yn edrych lle maent wedi bod yn flaenorol, ysbytai, meddyg teulu, gwasanaeth tân, heddlu, gwasanaeth prawf ayyb a gweld lle maent wedi bod ers Tai Yn Gyntaf ac edrych ar y dadansoddiad budd cost.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Sesiwn Estyn Allan un diwrnod yr wythnos - hoffi cael un tebyg i leoliad</li> </ul>	

	<p>Meddyg Teulu Wrecsam.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae rhwydweithiau wedi bod yn ddefnyddiol i ddod â phobl at ei gilydd.</li> <li>• Trailblazers, Conwy a Sir Ddinbych, Abertawe a Chaerdydd. <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Rhai negeseuon yn dod o'r ardaloedd hyn, pawb yn teimlo'n rhwystredig ar ba mor araf ydynt, ond ddim eisiau brysio hwn, eisiau ei wneud yn gywir.</li> </ul> </li> <li>• Trafodaethau gydag Adran Gwaith a Phensiynau – wedi bod yn gadarnhaol iawn, wedi gwneud trefniadau amgen gyda sancsiynau, trefn wahanol mewn lle ar gyfer Tai Yn Gyntaf.</li> <li>• Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod am fonitro'n fanwl ond nid ydynt wedi bod yn gwneud hyn, mae Conwy a Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cynaliadwyedd Tenantiaeth</li> <li>○ Lleihau niwed</li> <li>○ Ymyrraeth yn y gymuned</li> </ul> </li> <li>• Bydd y denantiaeth yn denantiaeth arferol.</li> <li>• Nid Tai Yn Gyntaf yw'r ateb i ddigartrefedd, mae'n canmol y prosiectau a mentrau eraill sydd gennym.</li> </ul> <p>Cytunodd i Abbe a Martin i roi cyflwyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn y dyfodol.</p>	RPJ
<b>9</b>	<b>Astudiaeth Achos - Cartrefi Conwy</b>	
	<p>Yn anffodus nid oedd signal y rhyngrwyd cryf felly nid oedd modd chwarae'r fideo yn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, ymddiheurwyd am hyn a dyma ddolen i'r fideo:</p> <p><a href="https://www.dropbox.com/sh/4dz8v3luocvyyu5d/AABPWux41dxe53k22a6MasC7a?dl=0">https://www.dropbox.com/sh/4dz8v3luocvyyu5d/AABPWux41dxe53k22a6MasC7a?dl=0</a></p> <p>Mae Cartrefi Conwy wedi ennill gwobr am y prosiect hwn.</p>	
<b>10</b>	<b>Unrhyw fater arall</b>	
	<p>Dim.</p> <p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 11 Hydref 2019 10:00am - 12:00pm ym Mhorth Eirias, Promenâd, Bae Colwyn,</p>	

## Table of actions

Cam Gweithredu	Pwy	Statws
Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol - Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i wneud cysylltiadau	Rachel Pierce-Jones	
Holl aelodau i fwydo hyn i ymgynghoriad canllaw Grant Cymorth Tai	Pob Un	
Cynghorwyr ar y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i hysbysu Aelodau Cynulliad ar yr effaith y gallai'r ailddosbarthu ei gael ar Ogledd Cymru.	Pob Un	
Rachel i ddod o hyd i hen waith a wnaethpwyd i ailddosbarthiad ac i ddiweddarau.	Rachel Pierce-Jones	
Cyflwyniad Tai Yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych i fod ar agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol	Rachel Pierce-Jones	